



Deufis

Taflen Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi

Ebrill-Mai 2020

Annwyl gyd-aelodau

Fel y gwelwch, mae'r rhifyn hwn o'r *Deufis* yn wahanol i'r arfer. Nid oes dim rhestr o oedfaon y Sul am fis Mawrth a Mis Ebrill, na chyhoeddiadau ynghylch yr Ysgolion Sul yn Noddfa ac ym Mrynhafod, nac am yr Astudiaeth Feiblaidd bob pythefnos yn y Glfach, na'r Cwrdd Darllen misol yn festri Noddfa, na'r arwerthiant blynyddol yn festri Aberduar, na'r oedfaon rheolaidd ar gyfer deiliaid cartref Hafan-deg. Cawsom gyngor i beidio â chynnal angladdau cyhoeddus yn y capeli ac i ohirio priodasau, ac mae'r Gymanfa Ganu a oedd fod i gael ei chynnal ar Sul 17 Mai hefyd wedi'i chanslo. Dyma ni yn gorfod ymateb i sefyllfaoedd newydd a rhyfedd, fel y maent yn codi o ddydd i ddydd.

Os yw'r gweithgareddau cyhoeddus wedi eu hatal am y tro, bydd rhaid i waith yr eglwysi fynd ymlaen mewn dulliau eraill. Gallwn ofalu am ein gilydd trwy gadw mewn cyswllt ar y ffôn neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol: gweler www.bedyddwyrogleddteifi.org a <https://twitter.com/BedyddGogTeifi>, a chynnig cymorth trwy siopa, yn enwedig am angenrheidiau bywyd megis bwyd a meddyginiaeth, i'r rheini sy'n methu gadael y tŷ. Dyma fanylion rhai sydd wedi gwirfoddoli i fod yn bersonau cyswllt i egwlysi'r Cylch yn ystod y cyfnod hwn:

Aberduar: Alan Jacob 01570 480905

Bethel: Eddie Thomas 01570 422400

Brynhafod: Mair Jones 01545 570150

Caersalem: Dorian Evans 01570 422465

Noddfa: Rob Phillips 01570 422992

Seion: Lynwen Evans 01570 423598

Os oes angen unrhyw negeseuon arnoch, cysyllwch ag unrhyw un o'r rhain, a byddwn yn gofalu ymateb yn briodol ac yn syth.

Mi fyddaf fi yn ffonio bob un ohonoch, yn ôl y gallwn, yn ystod y dyddiau a'r wythnosau nesaf hyn er mwyn cynnig cynhالياeth fugeiliol. Gan gofio'r anogaeth, 'Ymrowch i weddi ac ymbil, gan weddio bob amser yn yr Ysbryd' (Effesiaid 6:18), gadewch i ni ymrwymo i gofio'n gilydd mewn gweddi: 'Peidiwch â phryderu am ddim, ond ym mhob peth gwneler eich deisyfiadau yn hysbys i Dduw trwy weddi ac ymbil, ynghyd â diolchgarwch' (Philipiad 4:6). Yn ogystal â chofio am ein gilydd, ein teuluoedd a'n hanwyliaid, gadewch i ni weddio yn arbennig am y meddygon, y nyrsys a staff yr ysbytai a'r meddygfeydd, eu bod yn cael eu cadw yn ddiogel, ac fel y bydd bendith yn deillio o'u llafur. Gwnewch bwynt ar y Suliau i droi at y Beibl – awgrymwyn i chi ddechrau gyda'r Bregeth ar y Mynydd ym Matthew 5-7, ac yna Lyfr y Salmau, Salm 23, 34, 42, 90 a 91 – a chofiwch hefyd bod y Pasg, a gobaith yr atgyfodiad, yn agosáu.

Fy rhif ffôn i yw: 01570 422413

Cofion a phob bendith

Densil

Gweddi dros y Cylch

O Arglwydd daionus, sy'n noddfa ac yn nerth i ni ac yn gymorth hawdd dy gael ym mhob cyfyngder, dyro dy arweiniad i ni yn ystod y dyddiau pryderus hyn. Bydd yn gefn ac yn gysur i ni, ac yn bresenoldeb grasol ar ein haelwydydd, ac wrth i'r Pasg agosáu, dyro i ni obaith yr atgyfodiad a sicrwydd ynot ti. Bydd yn agos at y rheini sy'n glaf, ac yn arbennig at y rheini sy'n gweini arnynt. Pâr i ninnau fod yn wir dystion i ti, fel y caiff efengyl Iesu Grist ei chyhoeddi trwy ein gweithredoedd, ein gweddïau a'n gofal, yn yr eglwysi a'r ardaleodd hyn. Yn ei enw Ef. Amen